**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd S Powderhill | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Barton Y Cynghorydd S Bradwick

**103 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams.

**104 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**105 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**106 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**107 Cofnodion 16.09.21**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 yn rhai cywir.

**108 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**109 CAIS RHIF: 21/0256/10**

**Newid defnydd eiddo masnachol yn rhannol i eiddo preswyl er mwyn creu dau adeilad masnachol ac wyth fflat, ynghyd â gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Adroddiad Canlyniadau Llifogydd ar 05/07/2021, a derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 07/07/2021). 22-22A STRYD CAERDYDD, ABERDÂR, CF44 7DP**

Yn unol â chofnod 66 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021, trafododd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n amlinellu canlyniad yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021, mewn perthynas â'r cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu .

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Luke Brennan (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol ei gais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol o ran diffyg amwynder. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath.

**110 CAIS RHIF: 20/1365**

**3 Annedd ar wahân gyda 4 ystafell wely, pob un â lle parcio oddi ar y ffordd ar gyfer 3 char. (Ailgyflwyno cais 19/0449/10) (Derbyniwyd yr**

**Adroddiad Ecoleg ar 5 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, lleihau maint ffin y safle ac ail-leoli anheddau arfaethedig ar 5 Ionawr 2021. Derbyniwyd cynllun diwygiedig, gan ychwanegu stribed bioamrywiaeth / ecoleg, 14 Ebrill 2021). Tir Ger Brynllan, Ffordd Trebanog, Trebanog, Porth**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 7 Hydref 2021, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, Cynllunio (Cofnod 76).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

- Oherwydd agosrwydd y datblygiad at ael y bryn a thro, a'u cysylltiad â phrif briffordd brysur, byddai'r tair mynedfa newydd i gerbydau o bosib yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch defnyddwyr y briffordd ac amwynder preswylwyr. Ni fyddai'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf na chanllawiau cynllunio atodol y Cyngor ar gyfer Mynediad, Cylchrediad a Gofynion Parcio.

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes rhag pleidleisio ar yr eitem hon oherwydd nad oedd yn bresennol ar gyfer y ddadl lawn).

**111 CAIS RHIF: 21/0431**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) i ofyn am ganiatâd ar gyfer lleoliad adeilad, uchder adeilad, cwrt blaen a chladin allanol diwygiedig. (Cais gwreiddiol 19/0791/10). (Cynlluniau Diwygiedig wedi'u derbyn 02/08/21) Uned storio oddi ar heol y Beddau, Pontypridd**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais a adroddwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 2 Medi 2021, lle penderfynwyd gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021. Yna adroddwyd y cais yn ôl i'r Pwyllgor ar 7 Hydref, lle'r oedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu (mae Cofnod 78 yn cyfeirio at hyn).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

1. Byddai'r adeilad fel y'i codwyd, yn rhinwedd ei raddfa, ei ddyluniad diwydiannol a'i uchder gormodol yn cynrychioli math anghydweddol ac annatod o ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar amwynder gweledol deiliaid cyfagos, a chymeriad ac ymddangosiad y safle a'r ardal gyfagos, yn groes i Bolisïau AW5 ac AW6 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

2. Bydd y defnydd ychwanegol arfaethedig o'r lôn is-safonol fel prif fodd mynediad i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig yn creu mwy o beryglon traffig er anfantais i ddiogelwch priffyrdd a cherddwyr. Yn ogystal, bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu symudiadau gwrthdroi cerbydau yn ôl ac ymlaen i'r briffordd gyhoeddus, gan greu peryglon traffig ar draul diogelwch priffyrdd, yn groes i Bolisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**112 CAIS RHIF: 21/0185**

**Trosi hen dafarn/gwesty yn 14 o fflatiau hunangynhwysol. (Derbyniwyd arolwg ystlumod 27 Awst 2021, a derbyniwyd cynllun safle diwygiedig, gyda lleoedd parcio oddi ar y stryd ar 8 Medi 2021) Hen Westy'r Gordon, 60 Heol y Gelli, Gelli, Pentre.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn ystyriaeth hirfaith **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr adroddiad ac i amod ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion gael eu cytuno ar gyfer lleoliad y casgliad sbwriel, ac ar gyfer cwblhau cytundeb adran 106 i ddarparu fflat 1 x1 ystafell wely ar gyfer perchentyaeth cost isel (safon y farchnad), fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill y cyfarfod (3.38pm)).

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Owen rhag pleidleisio ar yr eitem hon, ar ôl ymuno â'r cyfarfod yn ystod y cyflwyniad ac felly doedd ddim yn bresennol ar gyfer y ddadl lawn).

**113 CAIS RHIF: 21/0895**

**Garej ddomestig sengl, wrth ymyl 22 Stryd Clarence, Ton Pentre, Pentre**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol **y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth,** PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**114 CAIS RHIF: 21/0883**

**Newid defnydd o garej fasnachol i 4 uned fanwerthu hunangynhwysol gydag estyniad unllawr ac addasiadau TREALAW TYRES, HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

**115 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 11/10/2021 – 22/10/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**